Cyhoeddir y ddogfen hon yn Gymraeg ac yn Saesneg

QAA

# Côd Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch

Mehefin 2024



# Cynnwys


**Rhagarweiniad** 1

Côd Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch 1

Strwythur 1

Gwybodaeth reoleiddiol 2

Sut mae'r Côd Ansawdd yn cael ei ddefnyddio 2

- Cynllunio, datblygu, gweithredu a chynnal fframweithiau ansawdd a safonau darparwyr 2
- Adolygu polisi ac arfer 2
- Gwella profiad dysgu myfyrwyr 3
- Sicrhau a hyrwyddo cydraddoldeb, amrywioldeb a chynhwysiant, ynghyd â chynaliadwyedd amgylcheddol 3

**Egwyddorion y Cytunwyd arnynt gan y Sector** 4

**Ymagwedd strategol** 4

- Egwyddor 1 - Mabwysiadu ymagwedd strategol at reoli ansawdd a safonau 4
- Egwyddor 2 - Cynnwys myfyrwyr fel partneriaid 5
- Egwyddor 3 - Darparu adnoddau ar gyfer profiad dysgu o ansawdd uchel 6

**Gwerthuso ansawdd a safonau** 7

- Egwyddor 4 - Defnyddio data i lywio a gwerthuso ansawdd 7
- Egwyddor 5 - Monitro, gwerthuso a gwella'r ddarpariaeth 8
- Egwyddor 6 - Ymwneud ag adolygu ac achredu allanol 9

**Gweithredu'r ymagwedd at wella ansawdd a safonau** 10

- Egwyddor 7 - Cynllunio, datblygu, cymeradwyo ac addasu rhaglenni 10
- Egwyddor 8 - Gweithredu partneriaethau gyda sefydliadau eraill 11
- Egwyddor 9 - Recriwtio, dethol a derbyn myfyrwyr 12
- Egwyddor 10 - Cynorthwyo myfyrwyr i gyflawni eu potensial 13
- Egwyddor 11 - Addysgu, dysgu ac asesu 14
- Egwyddor 12 - Gweithredu prosesau ar gyfer pryderon, cwynion ac apeliadau 15

**Geirfa o dermau allweddol** 16

# Rhagarweiniad

## Côd Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch

Mae Côd Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch (Côd Ansawdd) yn mynegi egwyddorion addysg uwch y DU ar gyfer cadarnhau safonau academaidd er mwyn sicrhau a gwella ansawdd.

Dyma'r pedwerydd argraffiad o'r Côd Ansawdd ers iddo gael ei ddatblygu gyntaf tua diwedd y 1990au.

Datblygwyd y Côd Ansawdd yn wreiddiol gan, ac ar gyfer, sector addysg uwch y DU.

Bwriedir i'r argraffiad hwn fod yn berthnasol y tu hwnt i addysg uwch, gan gydnabod bod llawer o rannau o'r DU yn ceisio datblygu ymagwedd drydyddol at ymdrin ag addysg. O ganlyniad, dylai hefyd fod o ddiddordeb a chynnig cymorth ymarferol i ystod eang o ddarparwyr addysg ôl-uwchradd.

Mae'r Côd Ansawdd yn gyfeirbwynt dan arweiniad y sector y gellir ei ddefnyddio mewn amrywiaeth o ffyrdd hyblyg. Mae'n galluogi darparwyr i werthuso eu polisïau a'u harferion gan gyfeirio at Egwyddorion y Cytunwyd arnynt gan y Sector, ac mae'n cyd-fynd â chyfeirbwyntiau rhyngwladol allweddol gan gynnwys y Safonau a Chanllawiau ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop (ESG).

Mae'r Côd Ansawdd, sydd wedi'i seilio ar gyd-ddealltwriaeth ar draws y DU, yn galluogi darparwyr i weld yr hyn a ddisgwylir ganddynt a'r hyn y gallant ei ddisgwyl gan ei gilydd, waeth beth fo'r fframwaith rheoleiddio penodol y maent yn gweithredu ynddo. Mae'n hysbysu'r cyhoedd, yn diogelu buddiannau myfyrwyr ac yn hyrwyddo enw da'r DU ledled y byd am ddarpariaeth addysg o ansawdd uchel.

## Strwythur

Mae'r Côd Ansawdd yn cynnwys dwy elfen - Egwyddorion y Cytunwyd arnynt gan y Sector ac Arferion Allweddol. Fe'i hategir gan gyfres o Gynghorion a Chanllawiau.

**Egwyddorion y Cytunwyd arnynt gan y Sector**
(Wedi'u halinio â'r Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd)

**Arferion Allweddol**
(Wedi'u cysylltu â'r Cyngor a Chanllawiau a chyfeirbwyntiau eraill y sector)

**Côd Ansawdd y DU**

Mae Egwyddorion y Cytunwyd arnynt gan y Sector yn nodi'r nodweddion sy'n sylfaenol i sicrhau safonau academaidd a chynnig profiad dysgu o ansawdd uchel yn y DU.

Mae'r Arferion Allweddol yn gosod allan sut y gall darparydd ddangos eu bod yn cadw at yr Egwyddorion y Cytunwyd arnynt gan y Sector.

**Cyngor a Chanllawiau**

Mae Cyngor a Chanllawiau'n cynorthwyo dwy elfen y Côd Ansawdd, gan gynnig mwy o fanylder ar draws cyfres o bynciau penodol.

## Gwybodaeth reoleiddiol

Mae'r Côd Ansawdd yn berthnasol i'r DU gyfan ac mae'n adlewyrchu'r dulliau nodweddiadol o ddarparu addysg lefel uwch ledled y DU, tra'n parchu gwahanol ofynion rheoleiddiol. Mae'n gyfeirbwynt allweddol yn yr ymagwedd at ansawdd ar gyfer yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

Yn Lloegr, mae angen i ddarparwyr gydymffurfio â'r Fframwaith Rheoleiddio ac Amodau Cofrestru'r Swyddfa Myfyrwyr. Mae ymgysylltu â'r Côd Ansawdd yn wirfoddol i ddarparwyr sydd wedi'u lleoli yn Lloegr, ac eithrio'r darparwyr hynny a adolygwyd yn erbyn y Côd Ansawdd gan ddefnyddio'r dull Adolygiad Goruchwylio Addysgol (EOR).

Gan gydnabod y gwahanol ddulliau rheoleiddio ar draws y DU a'r ffyrdd y defnyddir y Côd Ansawdd ar draws gwahanol fframweithiau addysgol, bydd angen i ddarparwyr fodloni eu hunain y cydymffurfir â'u gofynion statudol a rheoleiddiol. Nid yw'r Côd Ansawdd yn rhestru'r holl rwymedigaethau hyn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael i ddarparwyr gan eu cyllidwyr a'u rheolyddion cenedlaethol.

Gall pob darparydd ledled y DU ddefnyddio'r Côd Ansawdd i fodloni eu hunain, rhanddeiliaid allanol a phartneriaid rhyngwladol bod eu prosesau ansawdd yn cefnogi gwelliant uwchlaw'r waelodlin. Gan fod y Côd Ansawdd yn cyd-fynd â'r ESG, mae'n cynnig fframwaith a gydnabyddir yn rhyngwladol i ddarparwyr, fel y gallant ddangos eu bod yn darparu profiad myfyrwyr o ansawdd uchel, gan alluogi myfyrwyr i lwyddo yn eu hastudiaethau a symud ymlaen â'u nodau personol a phroffesiynol.

## Sut mae'r Côd Ansawdd yn cael ei ddefnyddio

Gellir defnyddio Côd Ansawdd y DU ar draws yr ystod lawn o lefelau, moddau a lleoliadau astudio a chymwysterau, gan gynnwys graddau sylfaen ac ymchwil, darpariaeth fodiwlaidd a micro-gymwysterau. Mae'r Egwyddorion y Cytunwyd arnynt gan y Sector a'r Arferion Allweddol trosfwaol yn cynnig fframwaith ar gyfer dylunio, datblygu, gweithredu a gwella ansawdd y ddarpariaeth, waeth beth fo'r dull rheoleiddio, union leoliad addysgol, y lefel neu ddull astudio.

Yn fwy penodol, gellir defnyddio'r Côd Ansawdd ar gyfer:

### Cynllunio, datblygu, gweithredu a chynnal fframweithiau ansawdd a safonau darparwyr

Gellir defnyddio'r Côd Ansawdd i gynllunio a ffurfio fframweithiau ansawdd a safonau'r darparwyr eu hunain. Mae'r fframweithiau hyn yn mynegi disgwyliadau mewnol darparwyr ar gyfer darpariaeth o ansawdd uchel, sydd wedi'u teilwra i'w cyd-destunau unigol. Gall fod yn sail ar gyfer hyfforddiant ac ar gyfer meincnodi arferion ac adroddiadau rheolwyr ar ansawdd a safonau. Yn ogystal, gellir ei ddefnyddio fel rhan o gymeradwyo ac adolygu rhaglenni/modiwlau, ar gyfer gweithio gyda phartneriaid yn y DU a thramor, ac i lywio gwelliant parhaus.



### Adolygu polisi ac arfer

Mae'r Côd Ansawdd yn arf ar gyfer gwerthuso ac adolygu polisi ac arfer yn effeithiol. Mae hefyd yn gweithredu fel canllaw ar gyfer adolygiad allanol, gan ymgorffori Egwyddorion y Cytunwyd arnynt gan y Sector y gall darparwyr ac adolygwyr allanol eu defnyddio i werthuso eu harferion.

## Gwella profiad dysgu myfyrwyr

Gall darparwyr ddefnyddio'r Côd Ansawdd i wella'n systematig ansawdd y ddarpariaeth a'r ffyrdd y cefnogir dysgu myfyrwyr. Mae gwella profiad myfyrwyr yn golygu bod darparwyr yn cymryd camau bwriadol a all fod yn rhan o welliant parhaus neu newidiadau mwy arwyddocaol mewn polisi ac arfer.

Gellir defnyddio gwahanol elfennau'r Côd Ansawdd fel fframwaith i fesur effeithiolrwydd sicrwydd ansawdd ac i nodi meysydd i'w gwella. Er enghraifft, efallai y bydd darparwyr yn dewis mapio eu harferion i'r Egwyddorion cyffredinol y Cytunwyd arnynt gan y Sector er mwyn sefydlu meincnod ar gyfer eu hymagwedd at ansawdd a safonau. Gallant wedyn ystyried yr Arferion Allweddol fel ffordd o werthuso a ydynt yn bodloni'r Egwyddorion, cyn ystyried yn derfynol y Cyngor a Chanllawiau i wella eu hymarfer a chynnig gwybodaeth fanylach i ymarferwyr arbenigol.

## Sicrhau a hyrwyddo cydraddoldeb, amrywioldeb a chynhwysiant, ynghyd â chynaliadwyedd amgylcheddol

Trwy ddefnyddio'r Egwyddorion y Cytunwyd arnynt gan y Sector a'r Arferion Allweddol, gall darparwyr fyfyrio ar i ba raddau y mae eu hymagwedd at ansawdd a safonau yn cefnogi creu profiadau cynhwysol, amgylcheddol gynaliadwy a theg i fyfyrwyr a staff.

Mae'r Egwyddorion yn datgan y bydd gan ddarparwyr strategaeth ar gyfer cydraddoldeb, amrywioldeb a chynhwysiant, ynghyd â chynaliadwyedd amgylcheddol sydd wedi'i gwreiddio yn eu diwylliant sefydliadol. Disgwylir i ddarparwyr hefyd fonitro'r trefniadau sydd ganddynt ar waith yn systematig er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol. Bydd hyn o gymorth i bob myfyriwr gyflawni ei botensial ac yn sicrhau nad oes unrhyw unigolyn neu grŵp dan anfantais oherwydd arferion addysgu neu gwricwla. Bydd cynnwys myfyrwyr fel partneriaid yn cefnogi nodau ehangach cynhwysiant ac yn galluogi darparwyr i ddatblygu dulliau teg o sicrhau a gwella ansawdd.

Trwy ddefnyddio'r Egwyddorion y Cytunwyd arnynt gan y Sector a'r Arferion Allweddol, anogir darparwyr i edrych yn ofalus ar sut mae eu hymagwedd at ansawdd a safonau yn cefnogi cynaladwyedd amgylcheddol. Mae cyflwyno Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy yn cynorthwyo darparwyr i fynd i'r afael â Nodau Datblygiad Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, sy'n galw ar bob darparydd 'i sicrhau bod pob dysgwr yn cael y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i hyrwyddo datblygiad cynaliadwy' (Targed 4.7: Datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang). Yn ogystal, mae Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy yn codi ymwybyddiaeth ymhlith myfyrwyr a staff, gan eu helpu i ddatblygu set o sgiliau sy'n canolbwyntio ar y dyfodol ac sy'n berthnasol yn fyd-eang.



# Egwyddorion y Cytunwyd arnynt gan y Sector

Mae'r Egwyddorion y Cytunwyd arnynt gan y Sector yn nodi natur sylfaenol ansawdd a safonau addysg uwch y DU. Mae yna 12 Egwyddor ac mae set o Arferion Allweddol yn perthyn i bob un, y gall darparwyr eu dilyn i ddangos sut maent yn cadw at yr Egwyddor honno.

## Ymagwedd strategol

### Egwyddor 1 - Mabwysiadu ymagwedd strategol at reoli ansawdd a safonau

Mae darparwyr yn dangos bod ganddynt ymagwedd strategol at ddiogelu safonau academaidd, ynghyd â sicrhau a gwella ansawdd sydd wedi'i hymgorffori ar draws y sefydliad.

#### Arferion Allweddol

a. Cyfrifoldeb y darparydd yw safonau academaidd ac ansawdd profiad dysgu myfyrwyr. Mae cyrff dyfarnu graddau yn ymwybodol mai nhw sy'n bennaf gyfrifol am y cymwysterau a gynigir yn eu henw.

b. Defnyddir ymagwedd strategol ble bynnag a sut bynnag y caiff y ddarpariaeth ei chyflwyno, ac mae wedi'i gwreiddio yn niwylliant ac arferion darparwyr.

c. Mae'r ymagwedd strategol yn cyd-fynd â pholisïau ac arferion darparwyr ar degwch, cydraddoldeb, amrywioldeb a chynhwysiant, ynghyd â chynaladwyedd amgylcheddol, i fyfyrwyr a staff.

d. Mae'r dull strategol o sicrhau safonau academaidd, sicrwydd ansawdd a gwelliant yn cael ei gyhoeddi, ei gyfathrebu'n glir ac yn hygyrch i staff, myfyrwyr a rhanddeiliaid allanol. Fe'i cefnogir gan fframwaith llywodraethiant cynhwysfawr a thryloyw.

e. Mae'r dull strategol yn cael ei fonitro a'i werthuso'n rheolaidd.

f. Mae arbenigedd allanol yn elfen allweddol o'r ymagwedd strategol at reoli ansawdd a safonau.

## Egwyddor 2 - Cynnwys myfyrwyr fel partneriaid

Mae darparwyr yn cymryd camau bwriadol i gynnwys myfyrwyr fel partneriaid gweithredol wrth sicrhau a gwella ansawdd profiad dysgu myfyrwyr. Mae ymgysylltu yn digwydd yn unigol ac ar y cyd i ddylanwadu ar bob lefel o astudio a gwneud penderfyniadau. Mae gwelliannau a nodir trwy weithgareddau ymgysylltu â myfyrwyr yn cael eu gweithredu, lle bo'n briodol, a'u cyfathrebu i staff a myfyrwyr.

### Arferion Allweddol

a. Mae ymgysylltiad myfyrwyr trwy weithio mewn partneriaeth yn cael ei arwain yn strategol; mae'n canolbwyntio ar y myfyriwr ac wedi'i ymgorffori yn niwylliant darparwyr.

b. Mae gweithgareddau ymgysylltu a chynrychiolaeth myfyrwyr wedi'u diffinio'n glir; maent yn cael eu cyfathrebu ac mae yna adnoddau a chefnogaeth ar eu cyfer. Mae trefniadau tryloyw ar waith er mwyn i lais cyfunol myfyrwyr gael ei glywed ac ymateb iddo.


c. Mae darparwyr yn dangos ymgysylltiad effeithiol â myfyrwyr, gan sicrhau bod unrhyw grwpiau neu baneli cynrychiolaeth yn adlewyrchu amrywioldeb y corff myfyrwyr. Mae myfyrwyr yn deall y gwrandawyd ar eu llais ac maent yn ymwybodol o sut mae eu barn wedi effeithio ar sicrwydd a gwelliant profiad myfyrwyr.

d. Mae cyfleoedd a phrosesau ymgysylltu â myfyrwyr yn rhoi ystyriaeth i nodweddion myfyrwyr ac yn ymatebol i amrywioldeb poblogaeth myfyrwyr pob darparydd. Maent yn cynnwys cyrff cynrychioli myfyrwyr, lle bo'n berthnasol.

e. Mae darparwyr a chyrff cynrychioli myfyrwyr, lle mae cyrff o'r fath yn bodoli, yn cydnabod ac yn dathlu cyfraniad myfyrwyr at wella addysgu a dysgu, yn ogystal â phrofiad ehangach y myfyriwr.

f. Caiff myfyrwyr eu galluogi a'u hannog i gymryd rhan weithredol mewn llywodraethiant a gwella profiad ehangach y myfyrwyr y tu hwnt i'r cwricwlwm ffurfiol.

## Egwyddor 3 - Darparu adnoddau ar gyfer profiad dysgu o ansawdd uchel



Mae darparwyr yn cynllunio, yn sicrhau ac yn cynnal adnoddau sy'n ymwneud â dysgu, technoleg, cyfleusterau a staffio i alluogi cyflwyno a gwella profiad dysgu hygyrch, arloesol o ansawdd uchel i fyfyrwyr sy'n cyd-fynd â strategaeth y darparydd a chyfansoddiad y corff myfyrwyr.

### Arferion Allweddol

a. Mae cynlluniau strategol a gweithredol, ynghyd ag adnoddau, yn alinio â thaith y myfyriwr ac wedi'u cynllunio a'u gweithredu i gynorthwyo profiad cadarnhaol i fyfyrwyr, yn ogystal â galluogi cyflawniad myfyrwyr.

b. Mae darparwyr yn sicrhau bod ganddynt adnoddau pwrpasol, hygyrch a chynhwysol i gefnogi a gwella cyflwyniad eu rhaglenni (ac unedau astudio llai) ynghyd â llesiant myfyrwyr a staff. Mae'r rhain yn cynnwys staffio, adnoddau digidol a diriaethol.

c. Caiff adnoddau eu hadolygu a'u diweddaru yn unol â datblygiadau strategol a newidiadau yn y ddarpariaeth, yn ogystal â recriwtio staff a myfyrwyr. Mae hyn hefyd yn sicrhau perthnasedd i'r gweithle a'r ddisgyblaeth academaidd ehangach.

d. Dyrennir adnoddau i sicrhau bod staff yn derbyn datblygiad proffesiynol parhaus i gynorthwyo a gwella'r broses o gyflwyno profiad dysgu ac ymchwil arloesol o ansawdd uchel i fyfyrwyr.

e. Mae prosesau a gweithgareddau i gynorthwyo â rheoli safonau academaidd a gwella ansawdd yn cael adnoddau priodol er mwyn bodloni amcanion a gofynion strategol, gweithredol a rheoleiddiol.

f. Mae creu, datblygu a chynnal amgylcheddau dysgu hygyrch a chynhwysol (diriaethol a rhithwir) yn cynnig cyfle i bob myfyriwr gymryd rhan yn eu profiad dysgu a hwyluso ymdeimlad o berthyn. Mae darparwyr yn sicrhau eu bod yn ystyried cynaladwyedd amgylcheddol wrth ddylunio a chynnal yr adnoddau a'r cyfleusterau dysgu hyn.

g. Mae darparwyr, mewn cydweithrediad â staff a myfyrwyr, yn monitro ac yn gwerthuso ar sail systematig effeithiolrwydd ac effaith amgylcheddau dysgu a'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer cyflwyno a gwella'r profiad dysgu.

# Gwerthuso ansawdd a safonau

## Egwyddor 4 - Defnyddio data i lywio a gwerthuso ansawdd

Mae darparwyr yn casglu, dadansoddi a defnyddio data ansoddol a meintiol ar lefel darparydd, adran, rhaglen a modiwl. Mae'r dadansoddiadau hyn yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau gyda'r nod o wella arferion a phrosesau sy'n ymwneud ag addysgu, dysgu a phrofiad ehangach y myfyrwyr.

### Arferion Allweddol

a. Defnyddir ymagwedd strategol gyson, gydlynol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer casglu, storio a rheoli data ar draws y darparydd. Mae'r darparydd yn egluro math a lefel y data a ddefnyddir (ar lefel adran, rhaglen a modiwl) a'r polisïau a'r prosesau sy'n sail i'w ddefnydd wrth gynnal safonau academaidd a sicrhau a gwella ansawdd.

b. Mae staff a myfyrwyr yn ymwybodol o'r mathau o ddata a gesglir a sut y caiff ei storio a'i ddefnyddio i reoli ansawdd a safonau.

c. Wrth ddylunio a gweithredu trefniadau monitro a gwerthuso, mae staff a myfyrwyr yn cadw at ofynion moesegol a diogelu data sy'n ymwneud â chasglu a chyflwyno data ar gyfer setiau data cenedlaethol a dibenion rheoleiddio, yn ogystal â monitro a gwerthuso mewnol.

d. Mae staff y mae'n ofynnol iddynt gasglu, trin a dadansoddi data at ddibenion adrodd, sicrhau ansawdd a gwelliant yn cael hyfforddiant sy'n eu galluogi i ymgymryd â'r gweithgareddau hyn yn effeithiol, yn foesegol ac yn ddiogel. Mae polisïau'n ymwneud ag unrhyw ddefnydd trydydd parti o ddata, gan gynnwys systemau sy'n defnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol.

e. Mae darparwyr sydd mewn trefniadau partneriaeth (gan gynnwys y corff cynrychioli myfyrwyr, lle bo'n berthnasol) yn sicrhau bod cytundebau rhannu data a gofynion adrodd yn cael eu datgan yn glir, eu deall a'u hadolygu o bryd i'w gilydd.

f. Caiff data ei gasglu a'i ddadansoddi mewn ffyrdd sy'n galluogi darparwyr i ddeall ac ymateb i anghenion eu corff myfyrwyr, gan hyrwyddo cydraddoldeb, amrywioldeb a chynhwysiant, ynghyd â chynaliadwyedd amgylcheddol.

## Egwyddor 5 - Monitro, gwerthuso a gwella'r ddarpariaeth



Mae darparwyr yn monitro ac yn adolygu eu darpariaeth yn rheolaidd i sicrhau safonau academaidd a gwella ansawdd. Cymerir camau bwriadol i ymgysylltu â myfyrwyr, staff ac arbenigwyr allanol, a'u cynnwys mewn gweithgarwch monitro a gwerthuso. Mae canlyniadau ac effaith y gweithgareddau hyn yn cael eu hystyried ar lefel darparydd i ysgogi myfyrio a gwelliant ar draws y darparydd.

### Arferion Allweddol

a. Mae darparwyr yn cytuno ar egwyddorion strategol ar gyfer monitro a gwerthuso i sicrhau bod prosesau'n cael eu gweithredu'n systematig, yn gyson ac yn briodol i'w cyd-destun gweithredol.

b. Mae'r dulliau ar gyfer monitro a gwerthuso gweithgareddau'n cael eu dogfennu i egluro eu nodau, amcanion, gweithredoedd a fwriadwyd a thargedau. Maent yn eglur ynghylch sut y cânt eu cynnal, natur y dystiolaeth (data) i'w hystyried a'r ffurf o adrodd, ynghyd â dangosyddion llwyddiant allweddol.

c. Mae staff a myfyrwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau monitro a gwerthuso ac yn cael hyfforddiant a chymorth priodol i ymgymryd â hwy.

d. Mae'r camau gweithredu a deilliannau gweithgareddau monitro a gwerthuso'n cael eu cyfleu mewn modd hygyrch i staff, myfyrwyr, y corff llywodraethu a, lle bo angen, rhanddeiliaid allanol.

e. Mae gwelliannau sydd wedi'u rhoi ar waith o ganlyniad i fonitro a gwerthuso, yn eu tro, yn cael eu monitro a'u gwerthuso i sicrhau bod eu heffaith yn gadarnhaol ac yn parhau i fod yn addas i'r diben.

f. Mae gweithgarwch monitro a gwerthuso yn hwyluso mewnwelediadau darparwyr a sut maen nhw'n hyrwyddo cydraddoldeb, amrywioldeb a chynhwysiant, yn ogystal ag addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy.

g. Caiff rhaglenni a modiwlau eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd gan gymheiriaid mewnol ac allanol, cyflogwyr a myfyrwyr, yn unol ag ymagwedd strategol y darparydd at ansawdd a safonau. Mae canlyniadau prosesau sy'n ofynnol gan gyrff cyllido, achredu, proffesiynol a chymeradwyo yn bwydo i'r gwaith monitro ac adolygu.

## Egwyddor 6 - Ymwneud ag adolygu ac achredu allanol

Mae darparwyr yn ymgymryd ag adolygiadau allanol i roi sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd eu dull o reoli ansawdd a safonau. Mae adolygiadau allanol yn cynnig cipolwg ar gymaroldeb dulliau darparwyr ac yn cynhyrchu canlyniadau y gall darparwyr eu defnyddio i wella eu polisïau a'u harferion. Gall darparwyr gomisiynu adolygiadau, gallant fod yn rhan o fframwaith ansawdd cenedlaethol neu fod yn gysylltiedig â chydnabyddiaeth broffesiynol ac yn cynnwys staff, myfyrwyr a chyfoedion yn weithredol. Gall sefydliadau cynrychioli, asiantaethau neu gyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddiol (PSRBs) sydd ag arbenigedd cydnabyddedig yn y sector ymgymryd â'r adolygiadau hyn, gan ddibynnu ar y ddarpariaeth sy'n cael ei hadolygu.

### Arferion Allweddol

a. Mae adolygiad allanol, boed yn ddewisol neu'n ofynnol gan fframweithiau ansawdd cenedlaethol neu gyrff achredu, wedi'i ymgorffori yn ymagwedd strategol y darparydd ac mae'n cyd-fynd â gweithgarwch monitro a gwerthuso ansawdd a safonau mewnol.

b. Mae darparwyr yn defnyddio canlyniadau adolygu ac achredu allanol fel catalydd ar gyfer gwelliant parhaus a strategol ym mhrofiad dysgu myfyrwyr.


c. Mae darparwyr yn cydnabod ac yn cefnogi'r arbenigedd a'r adnoddau sydd eu hangen i gymryd rhan mewn adolygiad ac achrediad allanol.

d. Mae darparwyr sy'n ymwneud ag adolygiadau allanol yn deall cyd-destunau rheoleiddiol a deddfwriaethol cenedlaethol y DU y maent yn gweithredu ynddynt a'r gwahanol ddulliau, ffurfiau a ffocws a allai berthyn iddynt. Gall darparwyr ymgysylltu â chydweithwyr sydd ag arbenigedd rhyngwladol, yn ogystal â'r rhai sy'n gyfarwydd â gofynion y DU.

e. Mae darparwyr yn deall y gofynion a'r broses ar gyfer adolygiadau allanol y gallai fod yn ofynnol gan reoleiddwyr mewn lleoliadau partneriaid cyflwyno.

# Gweithredu'r ymagwedd at wella ansawdd a safonau

## Egwyddor 7 - Cynllunio, datblygu, cymeradwyo ac addasu rhaglenni



Mae darparwyr yn dylunio, datblygu, cymeradwyo ac addasu rhaglenni a modiwlau i sicrhau bod ansawdd y ddarpariaeth a safonau academaidd y dyfarniadau yn gyson â'r Fframwaith Cymwysterau perthnasol. Mae darparwyr yn sicrhau bod eu darpariaeth a lefel eu cymwysterau yn gymaradwy â'r rhai a gynigir ledled y DU a, lle bo'n berthnasol, Y Fframwaith Cymwysterau ar gyfer Ardal Addysg Uwch Ewrop.

### Arferion Allweddol

a. Mae pob rhaglen a modiwl yn bodloni safonau academaidd sy'n gyson â'r fframweithiau cymwysterau a chredyd cenedlaethol perthnasol. Lle bo'n berthnasol, mae'r ddarpariaeth hefyd yn bodloni gofynion y corff proffesiynol ac achredu, neu safonau prentisiaethau.

b. Cynhyrchir set ddiffiniol o ddogfennau o'r prosesau dylunio, datblygu, cymeradwyo ac addasu; fe'u cedwir yn ddiogel ac maent yn gweithredu fel y brif ffynhonnell wybodaeth am bob rhaglen. Mae trefniadau tebyg ond cymesur ar waith ar gyfer modiwlau ac unedau astudio llai.

c. Mae'r dyfarniad sydd i'w dderbyn a sut mae deilliannau astudio'n cael eu cofnodi a'u hardystio'n cael eu gwneud yn glir i'r holl fyfyrwyr a staff sy'n ymwneud ag addysgu, dysgu a gwerthuso'r rhaglen a'r modiwl.

d. Cyhoeddir polisïau a phrosesau sy'n cefnogi dylunio, datblygu, cymeradwyo ac addasu rhaglenni a modiwlau ar wefan pob darparydd ac maent ar gael yn hawdd i randdeiliaid allweddol.

e. Mae ymgysylltu a gwerthuso allanol yn rhan o'r broses gynllunio, datblygu, cymeradwyo ac addasu.

f. Mae'r prosesau dylunio, datblygu, cymeradwyo ac addasu yn cyd-fynd â pholisïau ac arferion darparwyr ar degwch, cydraddoldeb, amrywioldeb a chynhwysiant, ynghyd â chynaliadwyedd amgylcheddol.

g. Mae myfyrwyr yn ymwneud yn ystyrlon â dylunio, datblygu, cymeradwyo ac addasu rhaglenni a modiwlau.

## Egwyddor 8 - Gweithredu partneriaethau gyda sefydliadau eraill

Mae darparwyr a'u partneriaid yn cytuno ar drefniadau cymesur ar gyfer llywodraethiant effeithiol i sicrhau'r safonau academaidd a gwella ansawdd y rhaglenni a'r modiwlau a gyflwynir mewn partneriaeth ag eraill. Mae sefydliadau sy'n ymwneud â threfniadau partneriaeth yn cytuno ac yn cyfathrebu cyfrifoldebau penodol y naill a'r llall mewn perthynas â chyflwyno, monitro, gwerthuso, sicrhau a gwella'r profiad dysgu.

### Arferion Allweddol

a. Lle cyflwynir darpariaeth academaidd trwy bartneriaeth, mae pob partner yn cytuno, yn deall, yn cyfathrebu ac yn cymryd cyfrifoldeb am gynnal safonau academaidd a gwella ansawdd.

b. Mae darparwyr yn ymwybodol y bydd gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill yn cynnwys gwahanol lefelau o risg. Cynhelir prosesau diwydrwydd dyladwy yn unol ag ymagwedd pob darparydd at leihau risg, cynnal safonau academaidd a gwella ansawdd.

c. Caiff cytundebau ysgrifenedig rhwng partneriaid eu llofnodi cyn dechrau rhaglen neu fodiwl ac maent yn berthnasol i gylch bywyd y bartneriaeth, gan gynnwys manylion am gau partneriaeth.

d. Mae darparwyr a'u partneriaid yn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddiol a deddfwriaethol y gwledydd y maent yn gweithio ynddynt ac yn cynnal ymwybyddiaeth o'r cyd-destun diwylliannol y maent yn gweithredu ynddo. Mae darparwyr yn sicrhau bod gan fyfyrwyr wybodaeth am gyfrifoldebau pob partner a ble i fynd am gymorth trwy gydol eu hastudiaethau.

e. Mae darparwyr yn cadw cofnodion cywir a chyfredol o drefniadau partneriaeth sy'n destun cytundeb ffurfiol.

f. Mae partneriaethau'n destun craffu parhaus sy'n cynnwys monitro, gwerthuso ac adolygu cyfnodol i sicrhau ansawdd a hwyluso gwelliant.

## Egwyddor 9 - Recriwtio, dethol a derbyn myfyrwyr

Mae darparwyr yn gweithredu prosesau recriwtio, dethol a derbyn sy'n dryloyw, yn deg ac yn gynhwysol. Mae darparwyr yn cynnal ac yn cyhoeddi gwybodaeth gywir, berthnasol a hygyrch am eu darpariaeth, gan alluogi myfyrwyr i wneud dewisiadau gwybodus am eu hastudiaethau a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol.

### Arferion Allweddol

a. Mae polisïau a gweithdrefnau ar gyfer ymgeisio, recriwtio, dethol a derbyn ar gyfer rhaglenni yn ddibynadwy, yn deg, yn dryloyw ac yn hygyrch, gan gynnwys prosesau ar gyfer cydnabod dysgu blaenorol. Mae trefniadau tebyg a chymesur ar waith ar gyfer modiwlau ac unedau astudio eraill.

b. Mae darparwyr yn cynnig gwybodaeth sydd o gymorth i ddarpar fyfyrwyr, a'r rhai sy'n eu cynghori, at ddibenion recriwtio ac ehangu mynediad, wrth wneud penderfyniadau gwybodus. Mae darparwyr yn bodloni eu rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol mewn perthynas â'r wybodaeth a gyflwynir amdanynt eu hunain a'u darpariaeth neu unrhyw newidiadau a wnânt i raglenni a modiwlau.

c. Mae staff, cynrychiolwyr myfyrwyr a phartneriaid allanol sy'n ymwneud â chynnal prosesau recriwtio, dethol, derbyn ac ehangu mynediad wedi'u hyfforddi'n briodol ac mae adnoddau digonol ar eu cyfer.

d. Mae pob tîm sy'n ymwneud â'r prosesau ymgeisio, dethol a derbyn yn sicrhau bod gwybodaeth am daith yr ymgeisydd yn gyson ac yn glir. Mae elfennau penodol o'r broses ddethol wedi'u diffinio'n glir, a chaiff unrhyw newidiadau i raglenni neu fodiwlau a all effeithio ar wneud penderfyniadau eu cyfathrebu'n gyflym ac yn gyson er mwyn galluogi unigolion i wneud dewis gwybodus.

## Egwyddor 10 - Cynorthwyo myfyrwyr i gyflawni eu potensial

Mae darparwyr yn hwyluso fframwaith cymorth ar gyfer myfyrwyr sy'n eu galluogi i gael profiad dysgu o ansawdd uchel a chyflawni eu potensial wrth iddynt symud ymlaen yn eu hastudiaethau. Mae'r strwythur cymorth yn cynnal y daith ddysgu academaidd, bersonol a phroffesiynol, gan alluogi myfyrwyr i gydnabod a chyfleu eu cynnydd a'u cyflawniadau.

### Arferion Allweddol

a. Cynigir gwybodaeth hygyrch, berthnasol, cywir ac amserol i fyfyrwyr a'r staff sy'n eu cynorthwyo ar hyd y daith ddysgu am y darparydd, y rhaglen astudio, cyfleoedd ehangach i ddatblygu ac argaeledd gwasanaethau cymorth.

b. Mae pob myfyriwr yn cael cefnogaeth briodol ar adegau pontio allweddol ar hyd eu taith, gyda'u hanghenion a'u gofynion penodol yn cael eu bodloni a'u llwybrau i ddysgu yn cael eu cydnabod.

c. Mae myfyrwyr a staff yn ymwybodol o'r gwasanaethau a'r gweithgareddau academaidd, proffesiynol a bugeiliol parhaus sydd ar gael, ac anogir myfyrwyr i fanteisio ar y cymorth a'r cyfleoedd hyn ar hyd eu taith ddysgu.

d. Mae staff yn meddu ar y cymwysterau priodol a chânt yr hyfforddiant a'r gefnogaeth angenrheidiol i gyflwyno dysgu a chymorth o ansawdd uchel i bob myfyriwr, yn enwedig y rhai ag anghenion a gofynion penodol.

e. Mae myfyrwyr a staff yn cydnabod bod gweithgareddau a gynigir y tu allan i'r cwricwlwm ffurfiol yn fuddiol o ran hybu ymdeimlad myfyrwyr o berthyn, yn ogystal â darparu cyfleoedd i ehangu eu sgiliau a'u cyflawniadau, gan ategu eu hastudiaethau ffurfiol.

## Egwyddor 11 - Addysgu, dysgu ac asesu

Mae darparwyr yn hwyluso ymagwedd gydweithredol a chynhwysol sy'n galluogi myfyrwyr i gael profiad dysgu o ansawdd uchel ac i symud ymlaen trwy eu hastudiaethau. Mae pob myfyriwr yn cael cymorth i ddatblygu ac arddangos sgiliau a chymwyseddau academaidd a phroffesiynol. Defnyddir amryw o ddulliau wrth asesu sy'n ymgorffori gwerthoedd uniondeb academaidd, gan gynhyrchu deilliannau sy'n gymaradwy ar draws y DU ac a gydnabyddir yn fyd-eang.

### Arferion Allweddol

a. Caiff dysgu ac asesu ar bob lefel eu llywio gan ymchwil a/neu ysgolheictod. Mae addysgu, dysgu ac asesu yn alinio i sicrhau bod myfyrwyr yn gallu dangos yr hyn maen nhw wedi'i gyflawni, myfyrio ar eu dysgu, sgiliau a gwybodaeth flaenorol a'u hatgyfnerthu, a gwireddu eu potensial.

b. Rhoddir gwybodaeth glir i fyfyrwyr am ddeilliannau dysgu modiwlau a/neu raglenni arfaethedig a phwrpas yr asesiad; cânt eu galluogi i ddefnyddio adborth i gynorthwyo â dysgu pellach.

c. Mae staff sy'n ymwneud â hwyluso dysgu a goruchwylio ymchwil yn meddu ar y cymwysterau priodol, a chânt bob cefnogaeth i wella eu harfer addysgu a goruchwylio. Cyflwynir graddau ymchwil mewn amgylcheddau cefnogol sy'n ffafriol i ddysgu ac ymchwil.

d. Mae myfyrwyr yn cael eu galluogi a'u hannog i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain ac i chwarae rhan weithredol wrth lunio a gwella'r broses ddysgu.
Mae darparwyr yn cynnig cyngor ac arweiniad parhaus ynghylch uniondeb academaidd i sicrhau bod myfyrwyr a staff yn deall yr hyn a ddisgwylir ganddynt.

e. Wrth i fyfyrwyr symud trwy eu taith ddysgu, cânt gyfle a chefnogaeth i bontio'n effeithiol rhwng lefelau academaidd, astudiaeth bellach a chyflogaeth. Mae darparwyr yn galluogi myfyrwyr i gydnabod y dilyniant y maent wedi'i wneud a'r camau y mae angen iddynt eu cymryd i gyflawni eu potensial.

f. Mae darparwyr yn cynllunio asesiadau sy'n profi deilliannau dysgu priodol ac sy'n deg, yn ddibynadwy, yn hygyrch, yn ddilys ac yn gynhwysol. Lle bo'n berthnasol, ac yn gynaliadwy, cynigir opsiynau gwahanol i fyfyrwyr ar gyfer cynnal asesiadau i hyrwyddo hygyrchedd a chynhwysiant.

g. Mae darparwyr yn sefydlu dulliau cydlynol o ymdrin â thechnolegau sy'n effeithio ar addysgu, dysgu ac asesu (fel Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol). Mae'r dulliau hyn yn cael eu cyfleu'n glir i staff a myfyrwyr, gan gynnwys sut y cânt eu defnyddio, yn ogystal â diffinio camddefnydd o dechnolegau o'r fath.

h. Mae darparwyr yn cynnig cyngor ac arweiniad ar uniondeb academaidd i sicrhau bod myfyrwyr a staff yn deall yr hyn a ddisgwylir ganddynt trwy gydol y daith ddysgu. Cedwir y cynghorion hyn yn gyfredol.

## Egwyddor 12 - Gweithredu prosesau ar gyfer pryderon, cwynion ac apeliadau

Mae darparwyr yn gweithredu prosesau ar gyfer cwynion ac apeliadau sy'n gadarn, yn deg, yn dryloyw ac yn hygyrch, ac wedi'u mynegi'n glir i staff a myfyrwyr. Caiff polisïau a phrosesau ar gyfer pryderon, cwynion ac apeliadau eu hadolygu'n rheolaidd, a defnyddir y deilliannau i gynorthwyo â gwella'r ddarpariaeth a phrofiad y myfyriwr.

### Arferion Allweddol

a. Mae polisïau a phrosesau ar gyfer ymwneud â phryderon, cwynion ac apeliadau yn hygyrch, yn gadarn ac yn gynhwysol; maent hefyd yn galluogi datrysiad cynnar lle bynnag y bo modd, ac maent yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â recriwtio, dethol a derbyn.

b. Mae polisïau a gweithdrefnau ar gyfer pryderon, cwynion ac apeliadau, gan gynnwys gwybodaeth amdanynt, yn glir ac yn dryloyw i fyfyrwyr, y rhai sy'n eu cynghori a'r rhai sy'n gweithredu'r prosesau. Mae camau ffurfiol ac anffurfiol y prosesau wedi'u mynegi'n glir.

c. Mae darparwyr yn bodloni (lle bo'n berthnasol) gofynion cenedlaethol a rhyngwladol cyrff allanol sy'n gyfrifol am glywed neu oruchwylio pryderon a chwynion.

d. Mae camau gweithredu sy'n deillio o bryderon, cwynion ac apeliadau yn gymesur ac yn galluogi achosion i gael eu datrys cyn gynted â phosibl.

e. Mae prosesau ar gyfer ymwneud â phryderon, cwynion ac apeliadau'n cael eu monitro a'u hadolygu i sicrhau eu bod yn hyrwyddo gwelliant ar draws y darparydd ac yn gweithredu fel y bwriadwyd hwy, er budd myfyrwyr a staff.

f. Defnyddir canlyniadau pryderon, cwynion ac apeliadau i ddatblygu a gwella addysgu a dysgu, yn ogystal â phrofiad ehangach y myfyrwyr.

# Geirfa o dermau allweddol

Diffinnir y termau isod yng nghyd-destun defnyddio'r Côd Ansawdd. Bydd rhagor o wybodaeth am y diffiniadau ar gael yn y Cyngor a Chanllawiau sy'n cyd-fynd â'r Côd Ansawdd.

Sylwch y gall y termau hyn gael eu diffinio'n wahanol mewn cyd-destunau eraill (o fewn a thu hwnt i addysg uwch) a gan wahanol randdeiliaid (fel rheolyddion, myfyrwyr a darparwyr unigol).

**Profiad academaidd**
Profiad y myfyrwyr o astudio a'u profiad o unrhyw adnoddau, cymorth, cyfleusterau a chyfleoedd eraill y mae'r darparydd yn eu cynnig i gynorthwyo eu dysgu.

**Uniondeb Academaidd**
Ymrwymiad i werthoedd sylfaenol gonestrwydd, ymddiriedaeth, tegwch, parch a chyfrifoldeb. Y gwrthwyneb i uniondeb academaidd yw arferion anfoesegol fel llên-ladrad, cydgynllwynio, twyllo trwy gontract neu gamymddwyn academaidd.

**Gwelliant**
Y gwelliant bwriadol a systematig yn ansawdd y ddarpariaeth a'r ffyrdd y cefnogir dysgu myfyrwyr, gan gynnwys ymgysylltiad gweithredol â myfyrwyr a staff. Mae yna wahanol ddehongliadau ar gyfer gwelliant ar draws y DU, gyda rhai o wledydd y DU yn meddu ar fframwaith rheoleiddio sy'n 'seiliedig ar welliant'.

**Cydraddoldeb**
Mae pob unigolyn neu grŵp o bobl yn cael yr un adnoddau neu gyfleoedd, ond mae QAA o'r farn y dylai cydraddoldeb gynnwys y cysyniad o 'gyfiawnder' sy'n cydnabod bod gan bob person anghenion gwahanol, ac felly dylid dyrannu adnoddau a chyfleoedd er mwyn cyrraedd canlyniad cyfartal.

**Ansawdd uchel**
Arferion a phrosesau sicrhau ansawdd a gwelliant sy'n gadarn ac yn cael eu gweithredu'n gyson, â'r nod o sicrhau a gwella profiad myfyrwyr. Mae'n arwain at ddeilliannau credadwy a chydnabyddedig i fyfyrwyr.

**Modiwl**
Uned astudio hunangynhwysol, wedi'i strwythuro'n ffurfiol gyda set gydlynol ac eglur o ddeilliannau dysgu a meini prawf asesu. Mae rhai sefydliadau'n defnyddio'r gair 'cwrs' i gyfeirio at fodiwlau unigol. Gellir cyfeirio atynt fel 'unedau astudio' mewn darparwyr addysg bellach.

| | |
|---|---|
| **Partneriaeth** | Pob trefniant ffurfiol (yn y DU neu dramor) lle mae darparydd yn gweithio gydag eraill i gynllunio a/neu gyflwyno cyrsiau a/neu ddyfarnu cymwysterau. Bydd y prosesau sydd angen i ddarparwyr eu dilyn i sicrhau ansawdd uchel yn amrywio'n sylweddol, gan ddibynnu ar y math o bartneriaeth a'r risgiau cysylltiedig. Mae mathau o bartneriaethau yn cynnwys:<br>• dilysu/cymeradwyo<br>• is-gontractio/rhyddfreinio<br>• dysgu yn y gweithle<br>• cydweithio â chyflogwyr (gan gynnwys i ddarparu prentisiaethau)<br>• addysg drawswladol<br>• partneriaethau a threfniadau cydweithredol rhyngwladol<br>• dulliau hybrid sy'n cyfuno mwy nag un o'r uchod. |
| **Rhaglen (astudio)** | Cwrs astudio cymeradwy sy'n darparu profiad dysgu cydlynol ac sydd fel arfer yn arwain at gymhwyster. Rhaid i raglenni addysg uwch y DU gael eu cymeradwyo a'u dilysu gan gyrff dyfarnu graddau'r DU. |
| **Ansawdd** | Mae'n cyfeirio at ba mor dda y mae darparwyr yn cynorthwyo myfyrwyr i gyflawni deilliannau cadarnhaol yn gyson mewn dysgu, datblygiad personol a datblygiad gyrfa, tra'n bodloni disgwyliadau rhesymol y myfyrwyr hynny, cyflogwyr, y llywodraeth a chymdeithas yn gyffredinol. |
| **Safonau/ safonau academaidd** | Dyma'r safonau y mae cyrff dyfarnu graddau yn eu gosod ac yn eu cynnal ar gyfer dyfarnu credydau neu gymwysterau academaidd Mae cyrff dyfarnu graddau'n gyfrifol am ddiffinio eu safonau academaidd eu hunain trwy osod y marciau ar gyfer llwyddiant a phennu'r cynlluniau graddio/marcio ac unrhyw feini prawf ar gyfer dosbarthu cymwysterau sy'n gwahaniaethu rhwng lefelau cyrhaeddiad myfyrwyr uwchlaw ac islaw'r trothwy ar gyfer safonau academaidd. Mae'r safonau unigol hyn yn alinio â fframweithiau cymwysterau a chredydau cenedlaethol a/neu'r Fframwaith Cymwysterau ar gyfer Ardal Addysg Uwch Ewrop. |
| **Ymagwedd strategol** | Dull clir o reoli ansawdd a safonau fel rhan o strategaeth addysg darparydd, gyda strwythurau llywodraethiant a gwneud penderfyniadau cynhwysfawr ac effeithiol yn cyrraedd hyd at gyrff llywodraethu ac yn cynnwys lefelau gweithredol. Mae llywodraethiant, a fframweithiau llywodraethiant, yn cyfeirio yn y cyd-destun hwn at brosesau a systemau sy'n diffinio ac yn llywodraethu penderfyniadau sefydliadol. |
| **Myfyrwyr** | Pob dysgwr/myfyriwr, waeth beth fo'u cefndir neu unrhyw nodweddion gwarchodedig, sy'n astudio ar unrhyw lefel a thrwy unrhyw fodd (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: israddedig ac ôl-raddedig; llawn-amser a rhan-amser; dysgwyr o bell, yn y gweithle ac ar y campws; prentisiaid addysg uwch). |
| **Myfyrwyr fel partneriaid** | Defnyddir gweithio gyda myfyrwyr fel 'partner' neu mewn 'partneriaeth' â hwy i ddiffinio a nodi cydweithio rhwng myfyrwyr (neu'r corff cynrychioli myfyrwyr, undeb, cymdeithas neu urdd myfyrwyr os oes ganddynt un) a staff y darparydd. Bydd lefel ymgysylltiad pob partner yn amrywio gan ddibynnu ar gyd-destun a natur profiad y myfyriwr. Mae partneriaethau myfyrwyr yn adlewyrchu perthynas sefydlog sy'n seiliedig ar barch rhwng myfyrwyr a staff. |

**Llais myfyrwyr**

Barn neu safbwynt unigol neu gyfunol, adborth neu gyfraniad myfyrwyr. Gall ymwneud ag unrhyw agwedd ar brofiad academaidd neu brofiad ehangach y myfyrwyr, a dylid ei geisio ar draws darparydd, gan gwmpasu ehangder y ddarpariaeth a'i gynnwys mewn pwyllgorau sy'n ymgynnull i lunio penderfyniadau. Mae'r defnydd o lais myfyrwyr yn rhan annatod o wella ansawdd y ddarpariaeth.

**Addysg drydyddol**

Pob addysg ôl-uwchradd, yn cwmpasu addysg bellach ac uwch, gan gynnwys cymwysterau academaidd, galwedigaethol a phroffesiynol. Mae sut mae'r term yn cael ei ddehongli yn amrywio rhwng gwledydd y DU:

- Yn yr Alban mae'n cyfeirio at golegau, prifysgolion a dysgu yn y gweithle.
- Yng Nghymru mae'n cyfeirio at yr holl ddarpariaeth o addysg ôl-16 (gan gynnwys chweched dosbarth) i fyny.
- Yn Lloegr a Gogledd Iwerddon mae'n derm generig a all gwmpasu addysg bellach ac uwch, ond nid darpariaeth chweched dosbarth.

Wrth weithio gyda phartneriaid tramor, dylai darparwyr hefyd wirio'r diffiniad a ddefnyddir gan eu partner ar gyfer 'trydyddol', gan y gall amrywio mewn gwahanol wledydd.

**Profiad myfyrwyr ehangach/ profiad cyd-gwricwlaidd**

Sef profiad y myfyriwr y tu hwnt i ddysgu academaidd ffurfiol, er enghraifft profiad a enillwyd trwy gynrychiolaeth, cymryd rhan mewn chwaraeon a chymdeithasau, gyrfaoedd neu wirfoddoli.



Cyhoeddwyd - 27 Mehefin 2024

© Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch 2024
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 a SC037786

+44 (0)1452 557 000
www.qaa.ac.uk